Rhestr termau

Term	Disgrifiad
Adolygiadau Sector	Adolygiadau Sector yw'r prif ddull y mae Cymwysterau Cymru yn ei ddefnyddio i adolygu a diwygio cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw'r sector cyntaf i gael ei ystyried. Y sector Adeiladu oedd nesaf, wedyn TG.
AHGC/AHGP	AHGC = Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol, neu Gymwysterau Galwedigaethol Rhagarweiniol, sy'n addas i bob oedran a gallu (mae'r mathau hyn o gymwysterau ar gael i ddysgwyr cyn 16 oed) AHGP = Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus, neu Gymwysterau Cymhwysedd Galwedigaethol, ar gyfer y rhai dros 16 oed (nid yw'r cymwysterau hyn ar gael i ddysgwyr cyn 16 oed).

Amod D7	**Amod D7 – Rheoli'r newid yn statws cymwysterau neu'r broses o dynnu cymwysterau yn ôl** **D7.1** At ddibenion yr amod hwn, mae corff dyfarnu yn newid statws cymhwyster neu'n tynnu cymhwyster yn ôl: (a) pan fydd yn peidio â chofrestru dysgwyr ar gyfer y cymhwyster; (b) pan fydd yn peidio â chyflenwi neu ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw i ddysgwyr; (c) (pan fo cymhwyster yn gymhwyster **Cymeradwy**) pan ddaw ei gymeradwyaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw; (d) (pan fo cymhwyster yn un **Cymeradwy**) pan fydd yn ildio ei gymeradwyaeth o ran y cymhwyster hwnnw; (e) (pan fo cymhwyster yn un **Cymeradwy**) pan gaiff ei gymeradwyaeth o ran y cymhwyster hwnnw ei dynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru; (f) (pan fo cymhwyster yn un **Dynodedig**) pan ellir rhoi trefniadau trosiannol ar waith lle y caiff cymeradwyaeth ei thynnu'n ôl neu y caiff dynodiad ei ddirymu ar y sail bod y cymhwyster dan sylw wedi dod yn gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig; (g) (pan fo cymhwyster yn un Dynodedig) pan gaiff ei ddynodiad ei ddiddymu gan Cymwysterau Cymru o ran y cymhwyster hwnnw; (h) pan fydd yn ildio ei gydnabyddiaeth o ran y cymhwyster hwnnw, neu (i) pan gaiff ei gydnabyddiaeth ei thynnu'n ôl o ran y cymhwyster hwnnw. **D7.2** Os yw corff dyfarnu yn bwriadu newid statws cymhwyster neu ei dynnu'n ôl neu os yw'n credu ei bod yn debygol o wneud hynny neu os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw. **D7.3** Rhaid i gorff dyfarnu roi rhybudd rhesymol i Cymwysterau Cymru ei fod yn bwriadu newid statws cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig** neu dynnu cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig** yn ôl, a rhaid iddo wneud hynny cyn iddo roi'r wybodaeth honno i unrhyw ddysgwyr, canolfannau neu brynwyr cymwysterau. **D7.4** Os yw corff dyfarnu yn bwriadu newid statws cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig**, neu dynnu cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig** yn ôl, neu os yw'n ofynnol iddo newid statws cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig**, neu dynnu cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig** yn ôl, rhaid iddo wneud y canlynol: (a) mynd ati ar unwaith i lunio cynllun ysgrifenedig, y mae'n rhaid iddo nodi sut y diogelir buddiannau dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, a chynnal y cynllun hwnnw a chydymffurfio ag ef (b) rhoi gwybodaeth glir a chywir am y penderfyniad i dynnu'r cymhwyster yn ôl i ddysgwyr, canolfannau a phrynwyr cymwysterau y bydd y penderfyniad hwnnw yn effeithio arnynt. **D7.5** Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw gynllun a gaiff ei lunio ganddo yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae Cymwysterau Cymru wedi'i hysbysu amdanynt yn ysgrifenedig. **D7.6** At ddibenion yr amod hwn, ar gyfer cymwysterau **Cymeradwy** diffinnir newid mewn statws fel cymhwyster nas **Cymeradwyir** gan Cymwysterau Cymru mwyach ac, ar gyfer cymwysterau **Dynodedig**, fe'i diffinnir fel cymhwyster nas **Dynodir** gan Cymwysterau Cymru mwyach.
Amodau Cydnabod Safonol	Yr holl amodau y mae cydnabyddiaeth corff dyfarnu yn ddarostyngedig iddynt (gan gynnwys amodau safonol a bennwyd o dan Atodlen 3 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015).
Archwiliad Dilysu	Archwiliadau ffurfiol yw'r rhain o'r data a roddir ar y ffurflen QiW a gyflwynir gan gyrff dyfarnu sy'n dymuno dynodi cymhwyster.
AU	Addysg Uwch

Canolfan	Sefydliad sy'n atebol i gorff dyfarnu am drefniadau asesu sy'n arwain at ddyfarnu credyd neu gymwysterau.
Cofrestr o Gymwysterau Rheoleiddiedig (Y Gofrestr)	Rhestr o Gyrff Dyfarnu Rheoleiddiedig a'u Cymwysterau Rheoleiddiedig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon
Corff Dyfarnu / Sefydliad Dyfarnu	Corff dyfarnu yw sefydliad sy'n rhoi dyfarniad addysgol, yn aml ar ôl asesiad ffurfiol. (fe'i gelwid gynt yn Fwrdd Arholi)
Corff Proffesiynol	Corff neu grŵp sy'n ymwneud â'r un proffesiwn, a ffurfir fel arfer i gynnal safonau a chynrychioli'r proffesiwn mewn trafodaethau â chyrff eraill, gweithwyr proffesiynol neu sefydliadau.
Credyd	Mae credyd yn ymwneud â'r cyllid y gallai ysgol neu goleg ei gael am addysgu'r cymhwyster.
Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT)	Cyfanswm Amser Cymhwyso yw nifer yr oriau tybiannol sy'n cynrychioli amcangyfrif o gyfanswm yr oriau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt fod yn ofynnol er mwyn i ddysgwr ennill cymhwyster.
Cyfeirio'n ôl	Gall cymhwyster gael ei gyfeirio'n ôl at gorff dyfarnu os nad oes digon o dystiolaeth i Cymwysterau Cymru ei ddynodi neu os nad yw'r meysydd ar QiW wedi cael eu llenwi yn unol â'r canllaw ar ddynodi.
Cyfres	Mae hyn yn cyfeirio at grŵp o gymwysterau o fewn yr un sector.
Cyfyngiad	Mae adran 14 o'r Ddeddf yn caniatáu i Cymwysterau Cymru gyfyngu ar gymhwyster sydd ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ("y Rhestr"). Caiff Cymwysterau Cymru ystyried a ddylid cymhwyso cyfyngiad at gymhwyster ar y Rhestr. Bydd hyn yn cyfyngu ar nifer y ffurfiau (neu 'fersiynau') gwahanol ar gymhwyster y gellir eu cymeradwyo ar unrhyw adeg.
Cyffredinol/Galwedigaethol	Bydd pob ysgol uwchradd a gynhelir yng Nghymru yn cynnig dewis o 25 o bynciau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4. Mae'n rhaid i dri o'r pynciau hyn fod yn alwedigaethol, felly caiff pob cymhwyster ei ystyried yn bwnc cyffredinol neu alwedigaethol. Caiff dysgwyr ôl 16 (h.y. dysgwyr sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol) hefyd ddewis o blith o 30 o bynciau. Mae'n rhaid i bump o'r pynciau hyn fod yn alwedigaethol a rhaid i bump fod yn gyffredinol.
Cymeradwyo	Cymwysterau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru ac sy'n gysylltiedig â chymwysterau ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol sydd â meini prawf cymeradwyo.

Cymhwyster	Dyfarniad a wneir gan gorff dyfarnu i ddangos y cymhwysedd a gyflawnwyd gan ddysgwr.
Cymwysterau Cymeradwy	Dim ond yng Nghymru y gellir dyfarnu cymwysterau cymeradwy, a byddant wedi bodloni meini prawf cymeradwyo cadarn sy'n sicrhau eu bod wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.
Cymwysterau Cymru	Rheoleiddiwr pob cymhwyster nad yw'n radd a'r system gymwysterau yng Nghymru
Cymwysterau Dynodedig	Cymwysterau rheoleiddiedig a ddynodir fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed, fel y'u diffinnir o dan adran 29 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Cymwysterau rheoleiddiedig	Pob cymhwyster nad yw'n radd (p'un a yw wedi'i gymeradwyo, ei ddynodi neu ei reoleiddio fel arall) a gynigir i'w ddyfarnu gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru (oni bai bod corff dyfarnu wedi ildio ei gydnabyddiaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, neu wedi eithrio'r cymhwyster hwnnw o gwmpas ei gydnabyddiaeth drwy hysbysu Llywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015).
Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill	Cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru ond sydd heb eu cymeradwyo/dynodi ac felly nid ydynt yn gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru ac nid ydynt yn ymddangos ar QiW.
Cymwysterau'r FfCC	Mae gan bob uned a chymhwyster lefel credyd ac uned. Mae un credyd yn cynrychioli 10 awr dybiannol o ddysgu. Mae lefelau'n nodi'r anhawster ac yn amrywio o Fynediad 1 i Lefel 8. Mae tri math o gymhwyster Dyfarniad: 1-12 credyd; Tystysgrifau: 13-36 credyd; Diplomâu: 36 credyd neu fwy
Cynllunio'r Cwricwlwm	**Cynllunio'r cwricwlwm** yw'r broses gwneud penderfyniadau am gynnwys a threfn y dysgu y mae'r ganolfan yn gyfrifol amdano. *Am ymholiadau ynghylch Cynllunio'r Cwricwlwm a Dewisiadau Cyn/Ôl 16, cysylltwch â* ***14-19@gov.wales***
Dangosydd Pwnc Craidd (DPC)	Mae hyn yn cynnwys TGAU mewn Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg a Mathemateg a Gwyddoniaeth, a phob un rhwng gradd A* a C. Mae rhestr o gymwysterau TGAU unigol sy'n cyfrif tuag at y Dangosydd Pwnc Craidd ar gael ar y **dudalen Canlyniadau Arholiadau ar wefan Llywodraeth Cymru.**

DAQW	Cronfa ddata cymwysterau cymeradwy yng Nghymru. Hon yw'r gronfa ddata a ddatblygwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru. Symudwyd y data hyn i gronfa ddata QiW ym mis Ebrill 2016.
Darparwr Dysgu	Ysgol, coleg, canolfan hyfforddi neu weithle sy'n cynnig cyfleoedd addysgol
Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith	Gall dysgu seiliedig ar waith gael ei ddarparu gan sefydliadau yn y sector masnachol a'r sector gwirfoddol o dan gontract i adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, neu drwy gynlluniau hyfforddi annibynnol a ariennir yn breifat a chynlluniau hyfforddi o fewn y cwmni
Defnyddiwr Terfynol	Person neu grwpiau o bobl a all ddefnyddio cronfa ddata QiW.
Dirymu	Penderfyniad gan Cymwysterau Cymru i ddileu cymhwysedd i gael arian.
Diwygiad	Gall cyrff dyfarnu wneud cais am ddiwygiad (newid) i'r data cymwysterau a ddelir ar QiW.
Dogfennau Ategol	Y dystiolaeth y mae cyrff dyfarnu yn ei rhoi er mwyn sicrhau bod cymwysterau yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo/dynodi. Gall tystiolaeth fod ar ffurf e-bost neu lythyr ffurfiol; un i ddangos galw yng Nghymru ac un i ddangos cefnogaeth broffesiynol i'r cymhwyster.
Dulliau Asesu	Y dulliau asesu a gaiff eu hamlinellu ym manyleb y cymhwyster e.e. portffolio o dystiolaeth, asesu dan reolaeth. Gellir dewis mwy nag un dull asesu.
Dyddiad Dechrau	Dyma'r dyddiad pan ellir dechrau addysgu'r cymhwyster cymeradwy/dynodedig yng Nghymru. Ni chaiff ysgolion a cholegau yng Nghymru arian cyhoeddus i addysgu cymhwyster oni fydd wedi'i gymeradwyo/dynodi. Diwrnod cyntaf y mis yw hwn.
Dyddiad Gorffen Gweithredol	Ni all dysgwyr newydd gofrestru ar gyfer cymhwyster ar ôl y dyddiad hwn. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr sydd eisoes wedi cofrestru gwblhau'r cymhwyster hyd at Ddyddiad Gorffen yr Ardystiad a chaniateir amser i'r cymhwyster gael ei ardystio. Y Cyfnod Ardystio yw'r enw a roddir ar yr amser rhwng y Dyddiad Gorffen Gweithredol a Dyddiad Gorffen yr Ardystiad.
Dyddiad Gorffen yr Ardystiad	Mae cymhwyster wedi dod i ben ar ôl y dyddiad hwn. Ni chaiff y cymhwyster ei ddyfarnu i unrhyw ddysgwyr ac ni fydd unrhyw ysgol na choleg yn cael arian cyhoeddus i'w addysgu ar ôl y dyddiad hwn.
Dynodi	Ffordd o'i gwneud yn bosibl i gymwysterau nad ydynt yn ddarostyngedig i broses gymeradwyo fod yn gymwys i gael arian cyhoeddus.

Dynodiad pellach	Ffordd bellach o'i gwneud yn bosibl i gymwysterau nad ydynt yn ddarostyngedig i broses gymeradwyo fod yn gymwys i gael arian cyhoeddus.
e-Asesu	Y prosesau electronig o'r dechrau i'r diwedd lle y defnyddir TGCh i gyflwyno gweithgarwch asesu a chofnodi ymatebion Mae hyn yn cynnwys y broses asesu o'r dechrau i'r diwedd o safbwynt dysgwyr, tiwtoriaid, sefydliadau dysgu, sefydliadau dyfarnu, rheoleiddwyr a'r cyhoedd.
Egwyddor 5 mlynedd	Os yw'r Dyddiad Gorffen Gweithredol newydd o fewn 5 mlynedd i'r dyddiad dechrau, gellir gwneud cais am ddiwygiad ac nid oes angen mwy o dystiolaeth ategol. Os yw'r Dyddiad Gorffen Gweithredol yn fwy na 5 mlynedd o'r dyddiad dechrau, rhaid darparu tystiolaeth yn erbyn y meini prawf dynodi.
GQ	Cymhwyster Cyffredinol
Graddfa Raddio	Dyma'r raddfa ar gyfer graddio'r cymhwyster. Er enghraifft: Llwyddiant, Teilyngdod a Rhagoriaeth.
FfCC	Y FfCC yw'r strwythur sy'n ein helpu i ddiffinio dysgu - pa mor anodd ydyw, a faint o amser ac ymdrech y mae'n ei gymryd. Gellir ei ddefnyddio i wneud synnwyr o'r miloedd o gymwysterau sydd eu hangen i wasanaethu'r gwahanol sgiliau, galwedigaethau a chwmnïau y mae angen gweithlu medrus arnynt. Gan ddefnyddio rheolau cyfuno, gall y FfCC ddatblygu cymwysterau o unedau seiliedig ar gredydau fel na chollir unrhyw ddysgu a bod dysgwyr yn gallu trosglwyddo eu dysgu o amgylch y system
Iaith	Dyma'r cyfrwng iaith y mae'r cymhwyster ar gael ynddo e.e. Cymraeg a Saesneg neu Gymraeg yn unig.
Ildio	Penderfyniad y corff dyfarnu i beidio â chael ei gydnabod mwyach am ddyfarnu cymhwyster penodol neu ddisgrifiad penodol o gymhwyster, neu am bob cymhwyster a gydnabyddir.
Is-Bwrpas	Mae'r is-bwrpas yn cyfleu gwybodaeth am ddiben y cymhwyster yn hytrach na'i ddefnydd
Is-Lefel y Cymhwyster	Defnyddir hyn i osod cymhwyster lefel Mynediad ar lefel 1, 2 neu 3
I'w gynnwys mewn Fframweithiau Prentisiaeth?	Dangosydd ynghylch p'un a gaiff y cymhwyster ei gynnwys mewn fframweithiau prentisiaeth. Defnyddir y wefan ganlynol at ddibenion cyfeirio: **www.afo.sscalliance.org/frameworks-library**

Lefel FfCE	Dyma'r gymhariaeth â Fframwaith Cymwysterau Ewrop. Caiff ei chynhyrchu'n awtomatig yn seiliedig ar faes Lefel y Cymhwyster.
Lefel Mynediad	Yn gymwys i ddysgwyr nad ydynt yn barod ar gyfer TGAU.
Lefel y Cymhwyster	Mae hyn yn dangos y lefel cyrhaeddiad y mae cymhwyster yn ei chynrychioli. Mae lefel 1 yn cyfateb i radd D-G mewn TGAU, mae lefel 2 yn cyfateb i raddau A*-C mewn TGAU ac mae lefel 3 yn cyfateb i gymhwyster Safon Uwch. Mae'r gyfres o lefelau a ddefnyddir yng Nghymru yn rhan o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCCh Cymru) wedi'i gysoni â Fframwaith Cymwysterau Ewrop (FfCE). Mae hyn yn golygu y gellir cymharu lefel cymhwyster a enillir yng Nghymru â lefel yn yr FfCE. Mae hyn yn helpu pobl a sefydliadau i drosglwyddo cyflawniadau rhwng gwledydd a gweithio ledled yr Undeb Ewropeaidd.
Llwybr	Cyrsiau a ddilynir gan fyfyriwr sy'n ei alluogi i fynd ymlaen i gwrs uwch neu sy'n cyfrif tuag at **gymhwyster** terfynol.
Maes	Mae pob cymhwyster ar lefelau 1, 2 a 3 wedi'u grwpio'n bum maes. Mae'r meysydd yn seiliedig ar Faes Categori y Sector/Pwnc (SSC) ac maent fel a ganlyn: A Mathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg B Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith C Gwasanaethau i Bobl D Celfyddydau Creadigol, y Cyfryngau, Diwylliant ac Iaith E Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol a Pharatoi ar gyfer Bywyd/Gwaith. Caiff dysgwyr ôl 16 (h.y. dysgwyr sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol) gynnig dewis o 30 o bynciau y mae'n rhaid i dri ohonynt fod yn rhai galwedigaethol. Mae'n rhaid i'r arlwy gynnwys amrywiaeth o bynciau a chwmpasu un dewis o faes A a dewisiadau o ddau faes arall o leiaf.
Maes Pwnc Is-Sector	Meysydd is-sector yw'r ail haen o gategorïau sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddosbarthu cymwysterau.
Maes Pwnc Sector	Mae meysydd pwnc sector yn gyfres o gategorïau sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddosbarthu cymwysterau e.e. gallai cymhwyster berthyn i gategori Gwyddoniaeth a Mathemateg neu Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal.

Manyleb y Cymhwyster	Hon yw'r fanyleb ar gyfer y cymhwyster a roddir gan y corff dyfarnu ac mae'n amlinellu amcanion a deilliannau'r cymhwyster. / Datganiad manwl yn diffinio diben, cynnwys, strwythur a threfniadau asesu ar gyfer cymhwyster
Materion Dynodi	Y rhestr a ddefnyddir gan Cymwysterau Cymru wrth adolygu cymhwyster i'w ddynodi. Mae'r rhain i'w gweld yn y canllaw i ddefnyddwyr.
Math o Adolygiad	Dyma'r math o adolygiad y mae'r corff dyfarnu yn cyflwyno'r cymhwyster ar ei gyfer: cymeradwyo (dylai'r cymhwyster ymddangos ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ar gyfer cymwysterau cymeradwy) neu ddynodi (ar gyfer cymwysterau i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed yng Nghymru).
Math o Gymhwyster	Dyma'r math o fanyleb y bwriedir i'r cymhwyster ei bodloni, e.e. TGAU, Safon Uwch.
NVQ	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol
Ofqual	Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau. Y sefydliad sy'n rheoleiddio cymwysterau, arholiadau a phrofion yn Lloegr
Oriau Dysgu Tywysedig (GLH)	Mae'r oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer cymhwyster yn ffordd dybiannol o fesur sylwedd cymhwyster h.y. cyfanswm yr amser sydd ei angen i'w ddysgu'n effeithiol. Mae'n cynnwys y canlynol: amcangyfrif o'r amser y gellir ei ddyrannu i addysgu uniongyrchol (fel amser a dreulir yn yr ystafell ddosbarth), amser dysgu strwythuredig arall, megis aseiniadau dan gyfarwyddyd (er enghraifft, prosiectau a gyflawnir gan y dysgwr fel rhan o astudiaethau ac arfer unigol â chymorth (megis gwersi adolygu yn yr ysgol) ac asesiadau yn y gwaith. Nid yw'n cynnwys unrhyw waith astudio preifat y mae'r dysgwr yn dewis ei wneud.
Pwrpas	Mae pwrpas y cymhwyster yn cyfleu gwybodaeth am brif ddiben y cymhwyster yn hytrach na'i ddefnydd e.e. Paratoi am addysg neu hyfforddiant pellach a/neu ddatblygu gwybodaeth a/neu sgiliau mewn maes pwnc.
QAN	Cyfeirnod Cymhwyster – cyfeirnod unigryw ar gyfer cymhwyster; fe'i gelwir hefyd yn god QAN neu rif achredu cymhwyster.
QiW	Mae Cymwysterau yng Nghymru (QiW) yn ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig a ddyfernir yng Nghymru. Mae'n system weithredol a ddefnyddir i chwilio

	am gymwysterau. Mae QiW yn cynnwys yr holl ddata cyfredol er mwyn galluogi canolfannau i wneud eu dewisiadau cwricwlwm ar gyfer y flwyddyn academaidd.
Rheoleiddiwr Cymwysterau	Sefydliad sy'n monitro ac yn cynnal safonau ar gyfer cymwysterau allanol
Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol	Rhestr sy'n nodi cymwysterau ar gyfer cymeradwyaeth flaenoriaethol. Rhaid i'r holl gymwysterau gael eu cymeradwyo neu'u dynodi gan Cymwysterau Cymru cyn i'r pynciau allu gael cyllid i'w haddysgu mewn ysgolion a cholegau.
Rhif Cymeradwyo/Dynodi Cymwysterau Cymru	Y rhif unigryw a ddynodir i bob cymhwyster a gyflwynir i QiW.
Rhoddir manylion cyflwyno i:	Bydd cyrff dyfarnu yn darparu cyfeiriad e-bost ar gyfer unrhyw hysbysiadau am gyflwyno.
Safon Uwch	Cymhwyster lefel uwch
TAG UG/Safon Uwch	Tystysgrif Addysg Gyffredinol UG/Safon Uwch
Teitl y Cymhwyster	Mae'r teitl yn ei gwneud yn bosibl i adnabod y cymhwyster yn hawdd mewn perthynas â'i bwnc neu'i gynnwys. Mae'n rhaid i'r teitl gynnwys y canlynol: Enw'r corff dyfarnu, lefel y cymhwyster, y math o gymhwyster (lle y bo'n berthnasol) a disgrifiad CRYNO o gynnwys y cymhwyster. Edrychwch ar Amod E2 o'r Amodau Cydnabod Cyffredinol. Noder na ddylid defnyddio'r termau NVQ na FfCCh yn y teitl, ac mae'n rhaid eu dileu o bob teitl sy'n bodoli eisoes erbyn mis Rhagfyr 2017.
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
Tystiolaeth o alw	Defnyddir hyn i gefnogi'r cais i ddynodi cymhwyster. Dylai fod tystiolaeth o alw am y cymhwyster gan garfan benodol yng Nghymru. Gellir cyflwyno'r dystiolaeth hon ar ffurf llythyr a dylai gynnwys y canlynol: • Teitl llawn y cymhwyster • Ystod oedran sy'n gymwys i'r ganolfan • Nifer bosibl o ymgeiswyr • Esboniad byr ynghylch pam mae diddordeb ganddynt mewn cynnig y cymhwyster.
Tystiolaeth o gefnogaeth broffesiynol	Defnyddir hyn i gefnogi'r cais i ddynodi cymhwyster. Dylai fod tystiolaeth bod y cymhwyster yn berthnasol mewn cyd-destun Cymreig (er enghraifft, cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a pholisïau yng

	Nghymru). Cyrff proffesiynol perthnasol yw'r rhai o fewn sector neu is-sector y cymhwyster. Nid oes angen cefnogaeth gan gyrff proffesiynol ar gyfer: • Sgiliau gwaith/bywyd • Cymwysterau rhagarweiniol/Cymwysterau lefel mynediad.
U2	Ail flwyddyn Safon Uwch. Yn cyfuno ag UG i gael cymhwyster Safon Uwch cyflawn
UG	Uwch Gyfrannol – blwyddyn gyntaf Safon Uwch (neu gymhwyster annibynnol).
VQ	Cymhwyster Galwedigaethol
Wedi'i dynnu'n ôl	Dileu cymhwyster o gronfa ddata QiW ond gall barhau i gael ei reoleiddio a'i gynnig yng Nghymru ond heb gyllid.
Yn fyw	Ystyrir bod manylion am gymwysterau ar QiW 'Yn fyw' hyd at 6 mis cyn y Dyddiad Gorffen Gweithredol. Yna mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu wneud cais am estyniad pellach neu caiff y manylion eu harchifo ar y system.
Ystod Oedran	Rhain yw'r ystodau oedran y mae'r cymhwyster wedi'i gymeradwyo neu'i ddynodi ar eu cyfer ac sydd, felly, yn gymwys i gael cyllid. Gall mwy nag un ystod oedran fod yn gymwys.